**Dawn Docx**
Prif Swyddog Tân / Chief Fire Officer

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Dogfen Bolisi Briodol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Atodlen 1 Rhan 4, Deddf Diogelu Data 2018

## 1. CYFLWYNIAD

Wrth brosesu data personol, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cydymffurfio gyda gofynion Rheoliadau Deddf Diogelu Data Cyffredinol y DU (DU GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn darparu'r camau diogelu sydd angen eu gweithredu wrth brosesu categorïau arbennig o ddata personol. Mae'r Ddogfen Bolisi Priodol hon yn amlinellu'r wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu Data 2018 wrth brosesu categorïau arbennig o ddata personol yn ddibynnol ar un o'r amodau sy'n gymwysedig yn yr atodlen honno.

Bydd y Ddogfen Bolisi Briodol hon yn cynnwys yr holl brosesu o ddata personol sensitif a weithredir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lle caiff yr holl amodau canlynol eu cyfarfod:

- Mae'r rheolydd data'n prosesu data personol sy'n berthnasol i Erthygl 9 neu 10 o GDPR y DU.
- Mae'r rheolydd data'n prosesu'r data personol hwn mewn cydymffurfiaeth ag amod a restrir yn Rhan 1,2,3 o Atodlen 1 o'r Ddeddf Diogelu Data.
- Mae'r amodau a restrir yn Rhannau 1.2.neu 3 o'r Atodlen yn cynnwys fod angen i'r rheolydd data fod yn berchen Dogfen Bolisi Briodol.

## 2. DIFFINIADAU

**Data biometric**- data personol o ganlyniad i brosesiad technegol penodol ynglŷn â nodweddion corfforol, ffisiolegol neu ymddygiad person, sy'n caniatáu neu gadarnhau hunaniaeth unigryw'r person hwnnw, megis delwedd wyneb neu olion bys;

**Caniatâd testun y data –** unrhyw arwydd o ddymuniad testun y data a gyflwynir yn rhydd, yn benodol, gwybodus ac eglur pryd y bydd ef neu hi'n cytuno ynglŷn â phrosesu data sy'n berthnasol iddynt drwy ddatganiad neu gytundeb gweithredol.

**Rheolydd Data** – y person, cwmni, awdurdod cyhoeddus (h.y. GTAGC), asiantaeth neu gorff arall, yn unigol neu ar y cyd ag eraill sy'n dod i benderfyniad am bwrpas a dull prosesu'r data personol.

**Deddf Diogelu Data –** y ddeddfwriaeth gyfredol yn y DU sy'n llywodraethu diogelu data. Deddf Diogelu Data 2018 yw'r ddeddfwriaeth gyfredol;

**Testun y Data**– unigolyn sy'n destun y data

**System Ffeilio** – unrhyw gyfres safonol o ddata y gellir cael mynediad ato yn ôl meini prawf penodol, bydded hynny'n ganolog, yn ddatganolog neu wedi ei wahanu ar sail ddaearyddol neu swyddogaethol;

**Data genetig** – data personol sy'n berthnasol i nodweddion person a etifeddwyd neu gaffaelwyd sy'n rhoi gwybodaeth unigryw am ffisioleg neu iechyd y person hwnnw ac o ganlyniad i ddadansoddiad o sampl biolegol gan y person hwnnw;

**Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)** – corff annibynnol y Du sy'n gyfrifol am fonitro'r Ddeddf Diogelu Data, gweler www.ico.org.uk;

**Data Personol** – unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i berson adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun y data'). Person adnabyddedig yw rhywun y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig yn ôl enw, rhif adnabod, data lleoliad, adnabyddiaeth ar-lein (adnabyddiaeth defnyddiwr neu gwci) neu yn ôl un neu ddau o ffactorau ynglŷn â hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person hwnnw.

Mae data personol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig, i'r wybodaeth ganlynol am berson:

- Enw
- Cyfeiriad
- Rhifau ffôn
- Rhifau adnabod, megis rhif Cyflogres, rhif Gwasanaeth, rhif Yswiriant Cenedlaethol
- Recordiadau, lluniau neu gopïau o lais person neu lun
- Rhifau cyfrif banc
- Cofnodion meddygol, cofnodion presenoldeb a salwch
- Hunaniaeth ar-lein (enw defnyddiwr).

Nid yw hoff dîm pêl-droed, teitl swydd ayb yn fathau arferol o ddata personol.

**Categorïau arbennig o ddata personol –** mae hyn yn cynnwys data personol sy'n nodi hil neu wraidd ethnig, barn wleidyddol, cred grefyddol neu athronyddol neu aelodaeth undeb, a phrosesu data genetig, data biometrig i allu adnabod person naturiol, data'n ymwneud ag iechyd neu ddata'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd person

naturiol;

**Torri ar ddiogelwch data personol –**toriad ar ddiogelwch sy'n arwain at fynediad damweiniol neu anghyfreithlon, colli, newid, datgelu heb awdurdod o ddata personol sy'n cael ei drosglwyddo, ei storio neu ei brosesu mewn dull arall;

**Preifatrwydd** – gellir diffinio preifatrwydd mewn sawl ffordd, yn cynnwys 'yr hawl i gael llonydd'. Mae'r term hefyd yn cynnwys y rhyddid rhag i rai heb awdurdod gael mynediad at ddata a ystyrir i fod yn bersonol neu'n gyfrinachol a rhyddid rhag bod dan sylw, cael eich monitro, neu eich archwilio heb ganiatâd neu wybodaeth o hynny. Gall ymwneud â phreifatrwydd olygu ymyrryd ar lonyddwch neu neilltuaeth gorfforol person, datgeliad cyhoeddus o ffeithiau preifat unigolyn, cyfleu ymddangosiad negyddol am berson yn gyhoeddus neu adfeddu enw neu hunaniaeth person i'ch budd eich hun (e.e. dwyn hunaniaeth).

**Prosesu** – unrhyw weithred neu gyfres o weithredoedd a wneir ar ddata personol neu ar gyfresi o ddata personol, bydded drwy ddulliau awtomataidd neu beidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, fframweithio, storio, cymhwyso neu addasu, adfer, ymgynghori, defnyddio, datgan drwy drosglwyddo, rhannu neu ei baratoi i fod ar gael, ei alinio neu gyfuniad o hyn, cyfyngu, dileu neu ddinistrio;

**Prosesydd** - person, cwmni, awdurdod cyhoeddus neu gorff arall sy'n berchen ar ddata personol ar ran y rheolydd;

**Proffilio** – unrhyw ffurf o brosesu awtomataidd o ddata personol yn cynnwys y defnydd o ddata personol i werthuso rhai agweddau personol o'r unigolyn, yn arbennig dadansoddi neu ragweld agweddau o berfformiad y person hwnnw yn y gweithle, sefyllfa economaidd, iechyd, dewisiadau personol, diddordebau, dibynadwyaeth, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau;

**Data dan ffugenw** – prosesu data personol yn y gath fodd fel na ellir cysylltu'r data personol â thestun y data heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, cyn belled ag y bo'r wybodaeth ychwanegol yn cael ei gadw ar wahân a bod mesurau technegol a threfniadol yn ei lle i sicrhau nad yw'r data personol yn cael ei gysylltu ag unrhyw berson;

**Derbynnydd**- person, cwmni, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall y datgelir y data personol iddynt os ydynt yn drydydd parti neu beidio.

**Cyfyngu'r Prosesu** – marcio data personol a storiwyd gyda'r bwriad o gyfyngu ar ei brosesu yn y dyfodol;

**Trydydd parti** - person, cwmni, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff ar wahân i destun y data a phersonau sydd ag awdurdod i brosesu'r data personol, dan awdurdod uniongyrchol y rheolydd neu'r prosesydd.

## 3. GWEITHGAREDDAU PROSESU AMODAU A DATA ATODLEN BERTHNASOL 1

Mae'n bosib y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n prosesu categorïau o ddata personol yn ddibynnol ar amodau'r Atodlen 1 canlynol. Mae enghreifftiau o'r mathau o ddata personol a brosesir mewn cysylltiad â phob amod wedi eu rhestru hefyd:

**Rhan 1 – Amodau'n Ymwneud a Chyflogaeth, Iechyd ac Ymchwil, ayb.**

- Diogelu cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a chymdeithasol
  - Prosesu data personol sy'n ymwneud ag iechyd yng nghyswllt hawliau'r Gwasanaeth dan ddyletswyddau a chyfraith cyflogaeth yn ôl Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
  - Prosesu data sy'n berthnasol i euogfarnau troseddol dan Erthygl 10 UE GDPR yng nghyswllt hawliau'r Gwasanaeth yn ôl y gyfraith cyflogaeth yng nghyswllt recriwtio, disgyblu neu ddiswyddo.
- Dibenion Iechyd neu Ofal Cymdeithasol
  - Cynnig darpariaeth adnoddau dynol ac iechyd galwedigaethol i weithwyr wrth asesu gallu gweithiwr a'r ddarpariaeth o addasiadau ac ymdriniaeth resymol.

**Rhan 2 – Amodau Diddordeb Sylweddol gan y Cyhoedd**

- Amcanion y llywodraeth a statudol ayb
- Cyflawni goblygiadau'r Gwasanaeth y nôl Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 megis ymateb i argyfyngau a chynnig cyngor diogelwch cymunedol.
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol eraill, megis y gofyn i ddatgelu gwybodaeth yng nghyswllt achosion cyfreithiol.

- Cydraddoldeb mewn cyfleoedd ac ymdriniaeth
  - Sicrhau fod cydymffurfio gyda goblygiadau'r Gwasanaeth y nôl deddfwriaeth megis Deddf Cydraddoldeb 2010.
  - Sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd cyfartaledd ymysg y cyhoedd wrth weithio.
  - Sicrhau fod mynediad cyfartal i'n gwasanaethau ar gyfer pob rhan o'r gymuned i gyfarfod â'n dyletswydd gyfreithiol a moesol i gynrychioli a gwasanaethu cymunedau.
- Atal neu adnabod gweithredoedd anghyfreithlon
  - Prosesu data sy'n ymwneud a chofnodion troseddol yng nghyswllt cyflogaeth er mwyn lleihau'r risg i'r Gwasanaeth ac i'r gymuned.
  - Gweithredu gorfodaeth yng nghyswllt dyletswyddau statudol y Gwasanaeth.
- Amddiffyn y cyhoedd rhag anonestrwydd ayyb.
  - Prosesu data sy'n ymwneud a chofnodion troseddol yng nghyswllt cyflogaeth er mwyn lleihau'r risg i'r gymuned.
  - Gweithredu gorfodaeth yng nghyswllt dyletswyddau statudol y Gwasanaeth.
  - Gweithredu ymchwiliadau a gweithredoedd disgyblu yng nghyswllt ein gweithwyr.
- Gofynion rheolaethol yng nghyswllt gweithredoedd anghyfreithlon ac

anonestrwydd ayb.

- Cydymffurfio â goblygiadau gorfodaeth y Gwasanaeth dan Orchymyn Diwygio Rheolaethol (Diogelwch Tân) 2005.
- Cynorthwyo awdurdodau eraill gyda'u gofynion rheolaethol hwy.

- Atal twyll
  - Datgelu data yn unol â threfniadau a wneir gan sefydliad gwrth-dwyll.
- Diogelu plant ac unigolion mewn perygl
  - Gweithredu asesiad risg gymunedol i adnabod cartrefi i'w targedu ar gyfer ymweliadau atal tân.
  - Adnabod unigolion mewn risg wrth fynychu digwyddiadau brys.
  - Ceisio cefnogaeth bellach i blant ac unigolion mewn perygl drwy rannu gwybodaeth gydag asiantaethau perthnasol. Lle bo'n bosib, gwneir cais am gydsyniad, ar wahân i adegau pan na fyddai gwneud cais am gydsynio yn ddisgwyliedig neu os fyddai'n rhoi ein gweithwyr mewn perygl neu'r unigolyn ei hun mewn mwy o berygl.
- Diogelu lles economaidd rhai unigolion
  - Gweithredu asesiad risg gymunedol i adnabod cartrefi i'w targedu ar gyfer ymweliadau atal tân.
  - Adnabod unigolion mewn risg wrth fynychu digwyddiadau brys.
  - Rhannu data gyda'n partneriaid i'w helpu i gefnogi unigolion.
- Pensiynau Galwedigaethol
  - Cyflawni goblygiadau'r Gwasanaeth i gynnig cynllun pensiwn galwedigaethol.
  - Penderfynu ar y buddion sy'n daladwy i ddibynyddion aelodau'r cynllun pensiwn.
- Datgelu i gynrychiolwyr etholedig
  - Cynorthwyo cynrychiolwyr etholedig megis Cynghorwyr llywodraeth leol ac Aelodau Seneddol gyda cheisiadau am gymorth ar ran eu hetholwyr.

**Rhan 3 – Amodau Ychwanegol sy'n Berthnasol i Euogfarnau Troseddol ayb.**

- Estyniad o amodau yn Rhan 2 o Atodlen 1 yng nghyswllt diddordeb sylweddol y cyhoedd.
  - Gall y Gwasanaeth brosesu data personol sy'n gysylltiedig ag euogfarnu troseddol yng nghyswllt ei oblygiadau gorfodaeth neu fel rhan o wiriadau recriwtio a chyflogi er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag anonestrwydd.

## 4. GWEITHDREFNAU I SICRHAU CYDYMFFURFIO GYDAG EGWYDDORION DIOGELU DATA A GYNHWYSIR YN ERTHYGL 5 O GDPR YR UE

Yn gryno, noda Erthygl 5 o'r GDPR y bydd data personol:

- yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw;
- yn cael ei gasglu ar gyfer dibenion penodol a chyfreithlon a'i brosesu'n unol â'r dibenion hynny;
- yn cael ei gyfyngu gan fod yn addas a pherthnasol i'r hyn sy'n angenrheidiol ar

gyfer y dibenion a nodwyd;

- yn gywir, a lle bo angen, yn cael ei ddiweddaru;
- ddim yn cael ei gadw'n hirach na'r hyn sydd ei angen;
- yn cael ei gadw'n ddiogel.

Yn ychwanegol, mae Erthygl 5 yn mynnu y bydd y rheolydd data'n gyfrifol am yr egwyddorion hyn ac yn gallu arddangos cydymffurfiaeth â'r egwyddorion (egwyddor atebolrwydd).

Mae Polisi Diogelu Data'r Gwasanaeth yn amlinellu'r gofynion ar gyfer yr egwyddorion diogelu data sydd angen cydymffurfio â hwy wrth brosesu data personol o fewn y Gwasanaeth. Mae Swyddog Diogelu Data'r Gwasanaeth yn sicrhau fod yr egwyddorion diogelu data yn cael eu gweithredu a bod rhaid i'r Gwasanaeth fod yn atebol am y data personol y bydd yn ei brosesu.

Wrth brosesu data categori arbennig, defnyddir y gweithdrefnau canlynol i sicrhau fod cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data:

- Prosesu cyfreithlon, teg a thryloyw
  - Darparu hysbysiad preifatrwydd.
  - Cydymffurfio ag amodau o Erthygl 6 ac Erthygl 9 o GDPR yr UE.
  - Defnyddio asesiad o effaith ar ddiogelu data i sicrhau fod prosesu arfaethedig yn cael ei weithredu'n deg.

- Cael ei gasglu ar gyfer dibenion penodol a chyfreithlon ac wedi ei brosesu'n unol â'r dibenion hyn
  - Hysbysiadau preifatrwydd yn amlinellu'r bwriadau ar gyfer defnyddio'r data personol.
  - Y data personol ddim i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion eraill heb gael caniatâd testun y data, os na fydd awdurdod cyfreithiol ar gyfer hyn.
- Yn addas, yn berthnasol ac wedi ei gyfyngu i'r dibenion a nodir
  - Defnyddio asesiad o effaith ar ddiogelu data i sicrhau fod data a gesglir yn ddigonol i gynnig y gwasanaeth ond nid yn ormodol er mwyn gwarchod unigolion rhag niwed.
  - Defnyddio canllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth berthnasol i benderfynu pa wybodaeth y dylid ei gasglu.
- Yn fanwl a lle bo angen, wedi ei ddiweddaru
  - Cydweddu setiau o ddata lle bo'n bosib er mwyn gwirio manylder.
  - Adolygu gwybodaeth bersonol a ddelir wrth gysylltu â thestunau data.
  - Cywiro data personol pan hysbysir gan destunau data wrth iddynt ymarfer eu hawliau'n unol ag Erthygl 16 GDPR y DU.
- Peidio dal gafael ar y data'n hirach na fo angen
  - Mae cyfnodau cadw gwybodaeth wedi ei amlinellu yng nghofrestr ased gwybodaeth a hysbysion preifatrwydd y Gwasanaeth.

- Mae cyfnodau cadw gwybodaeth yn seiliedig ar ofynion cyfreithiol i gadw data ac ystyriaeth o anghenion testunau'r data drwy asesiadau effaith ar ddiogelu data.

- Cadw'r data'n ddiogel
  - Mae'r Gwasanaeth yn cadw at Safon Diogelwch Sibir Isafrif y Llywodraeth ac yn gweithredu rheoliadau diogelwch gwybodaeth yn unol â 'Cyber Essentials Plus' ac ISO27001.
  - Mae Grŵp Llywio Gwybodaeth y Gwasanaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau fod llywodraethu addas o ddiogelwch gwybodaeth yn cael ei weithredu o fewn y Gwasanaeth.
  - Mae pob defnyddiwr o systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth yn cael eu fetio'n unol â Safonau Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél HMG.
  - Defnyddir rheolaeth dechnegol megis amgryptian i ddiogelu gwybodaeth sensitif o fewn sustemau.
  - Gweithredir rheolaeth mynediad at ddata sensitif yn seiledig ar rolau er mwyn cyfyngu mynediad.
  - Lle bo'n bosib, gwneir defnydd o gofnodi testun data'n ddienw neu dan ffugenw i leihau'r risg o gyfaddawdu data sensitif.

## 5. CADW A DILEU DATA PERSONOL

Mae data personol yn cael ei gadw a'i ddileu'n unol â Pholisi Cadw Data'r Gwasanaeth. Pan fydd data'n cael ei ddileu, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau fod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel drwy ddefnyddio dulliau dileu copïau caled yn ogystal â dileu data trydanol.

Mae Cofnod Gweithgareddau Prosesu'r Gwasanaeth yn cynnwys manylion am gyfnodau cadw gweithgareddau prosesu data'r Gwasanaeth ynghyd â gwybodaeth am sail gyfreithiol am brosesu'r data hwn. Os na fydd gwybodaeth yn cael ei gadw neu ei ddileu'n unol â'r polisi, yna bydd y rheswm yn cael ei gofnodi yn y Cofnod o Weithgareddau Prosesu.

## 6. CYFRIFOLDEB AM BROSESU DATA SENSITIF

Disgwylir i'r holl weithwyr gydymffurfio gyda pholisïau Diogelu Data'r Gwasanaeth pan fyddant yn prosesu data personol ac i wneud yn siŵr fod yr holl brosesu o ddata personol sensitif yn cael ei wneud yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod y systemau a'r prosesau dan eu rheolaeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data diweddaraf a bod data personol yn cael ei brosesu'n unol â'r egwyddorion diogelu data.